OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 283

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig, Ffioedd a Ffioedd am Geisiadau Tybiedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

**Diwygiadau i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 3(1)(aa) (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: cyffredinol) mewnosoder—

"(ab) gosod llinell drydan uwchben y ddaear;".

(3) Yn rheoliad 4 (gorsafoedd cynhyrchu)—

(a) ym mharagraffau (1) a (2) yn lle "50 megawat" rhodder "350 megawat";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn y diffiniad o "gorsaf gynhyrchu" ("*generating station*") ar ôl "ond nid yw'n cynnwys gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir" mewnosoder "na chyfleuster sy'n cynhyrchu trydan o ynni wedi ei storio";

(ii) mewnosoder yn y mannau priodol—

""cyfleuster storio hydrodrydan â phwmp" ("*a pumped hydroelectric storage facility*") yw cyfleuster sy'n storio ynni disgyrchol potensial dŵr sydd wedi cael ei bwmpio i lefel uwch er mwyn defnyddio ei gwymp yn ôl i'r lefel is i gynhyrchu trydan;";

"ystyr "ynni wedi ei storio" ("*stored energy*") yw ynni—

(a) a drawsnewidiwyd o drydan; a

(b) sy'n cael ei storio at ddiben ei aildrawsnewid yn drydan yn y dyfodol,

ond nid yw'n cynnwys ynni wedi ei storio mewn cyfleuster storio hydrodrydan â phwmp;.".

(4) Ar ôl rheoliad 4A (gorsafoedd cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir) mewnosoder—

"**Llinellau Trydan**

**4B.**—(1) Nid yw gosod llinell drydan uwchben y ddaear ond o fewn rheoliad 3(1)(ab)—

(a) os oes gan y llinell o dan sylw foltedd enwol o 132 cilofolt neu lai; a

(b) os yw'r llinell o dan sylw yn gysylltiedig ag adeiladu neu estyn gorsaf gynhyrchu ddatganoledig yng Nghymru sydd wedi cael caniatâd cynllunio neu sydd wedi cael cydsyniad ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny.

(2) Yn y rheoliad hwn—

(**1**) O.S. 2016/53 (Cy. 23), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/358 (Cy. 111).

ystyr "dyfroedd Cymru" ("*Welsh waters*") yw hynny o ddyfroedd mewnol a môr tiriogaethol y Deyrnas Unedig sy'n gyfagos i Gymru, a pharth Cymru;

ystyr "gorsaf gynhyrchu ddatganoledig yng Nghymru" ("*devolved Welsh generation station*") yw gorsaf gynhyrchu—

(a) sydd yng Nghymru ac—

(i) sy'n cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt, neu

(ii) sydd â'r gallu cynhyrchu uchaf o 350 megawat neu lai; neu

(b) sydd yn nyfroedd Cymru ac sydd â'r gallu cynhyrchu uchaf o 350 megawat neu lai;

ystyr "llinell drydan" ("*electric line*") yw unrhyw linell sy'n cael ei ddefnyddio i ddargludo trydan at unrhyw ddiben ac sy'n cynnwys, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall—

(a) unrhyw gynhaliad ar gyfer unrhyw linell o'r fath, hynny yw, unrhyw strwythur, polyn neu wrthrych arall y mae unrhyw linell o'r fath yn cael ei chynnal, ei chario neu ei chrogi ynddo, arno, ganddo neu ohono neu y gall unrhyw linell o'r fath gael ei chynnal, ei chario neu ei chrogi ynddo, arno, ganddo neu ohono;

(b) unrhyw gyfarpar sy'n gysylltiedig ag unrhyw linell o'r fath at ddiben dargludo trydan; ac

(c) unrhyw wifren, cebl, tiwb, pibell neu wrthrych tebyg arall (gan gynnwys ei chasin neu ei gasin neu ei gorchudd neu ei orchudd) sy'n amgylchynu neu sy'n cynnal unrhyw linell o'r fath, neu sydd wedi ei hamgylchynu neu ei amgylchu neu ei chynnal neu ei gynnal ganddi, neu wedi ei gosod neu ei osod yn agos ati, neu wedi ei chynnal neu ei gynnal, ei chario neu ei gario neu ei chrogi neu ei grogi mewn cysylltiad ag unrhyw linell o'r fath; ac

mae i "parth Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh zone" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**)."

(**2**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd y diffiniad o "Welsh zone" gan adran 43 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23).